**Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai LGH-04-03(p.3)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 12 Chwefror 2003 |
| **Lleoliad:** | |
| **Teitl:** | Mesur Gofal Cymunedol (Gohirio Rhyddhau) - y goblygiadau i Awdurdodau Lleol Cymru |

## Diben

1. Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am hynt y Mesur Gofal Cymunedol (Gohirio Rhyddhau ac ati) ac ystyried ei oblygiadau i Awdurdodau Lleol Cymru. Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n bennaf gyfrifol am hyn, ac mae'n rhoi gwybod i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau am ei hynt.

## Argymhelliad

2. Cyflwynir y papur hwn yn unol â chais y Pwyllgor a gwahoddir yr Aelodau i nodi'i gynnwys.

## Cefndir

3. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am hynt y Mesur ym mis Rhagfyr 2002 (Atodiad 1). Diben y Mesur, a gyflwynwyd ar 14 Tachwedd 2002, yw mynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal o'r GIG i sefyllfaoedd gofal cymunedol, a hynny trwy:

- beri iddi fod yn ofynnol i'r awdurdodau lleol ad-dalu'r GIG pan fo cleifion wedi gorfod aros yn yr ysbyty am resymau sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol
- peri iddi fod yn ofynnol i'r awdurdodau lleol ddarparu rhai gwasanaethau gofal cymunedol y mae hawl ganddynt i godi tâl amdanynt ar hyn o bryd yn rhad ac am ddim, a hynny am gyfnod penodol i hwyluso'r broses o adael yr ysbyty yn ddiogel ac yn

amserol.

4. Caiff yr holl fanylion eu hamlinellu mewn rheoliadau. Mae'r Mesur yn cynnwys darpariaethau cychwyn a rheoleiddio ar wahân ar gyfer Cymru a Lloegr.

5. Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu defnyddio darpariaethau ad-dalu'r Mesur ar unwaith. Trwy sicrhau y bydd modd defnyddio pwerau'r Mesur, gall Cymru fanteisio ar brofiad ardaloedd eraill os bydd angen, a hynny heb fynd ati i lunio deddfwriaeth sylfaenol newydd.

6. Mae cynllun eisoes ar waith i ddarparu gofal yn y cartref rhad ac am ddim am 6 wythnos. Byddai modd defnyddio'r grym newydd i lunio rheoliadau a fyddai'n rhoi'r trefniadau hynny ar waith mewn ffordd fwy eglur a chyson. Cyn y câi rheoliadau eu llunio yn unol â'r pwerau newydd hyn, byddai cyfle i lywodraeth leol, defnyddwyr, gofalwyr a phobl eraill gyfrannu at ymgynghoriad ar unrhyw gynigion. Pe bai rheoliadau yn ymestyn y ddarpariaeth rhad ac am ddim, câi'r golled yn incwm yr awdurdodau lleol ei hystyried dan y weithdrefn "beichiau newydd" yn y ffordd arferol.

**Goblygiadau Ariannol**

7. Mae'r Mesur yn darparu ar gyfer rheoliadau i nodi swm y taliad a fydd yn berthnasol fesul diwrnod yn ystod y cyfnod gohirio rhyddhau. O ran ad-daliadau yn Lloegr y tu allan i ardal Llundain, awgrymwyd ffigur gwerth tua £100. Os na fyddwn yn rhoi darpariaethau ad-dalu ar waith yng Nghymru, ni fydd unrhyw effaith i'w gweld ar gyllid llywodraeth leol. Cytunwyd na chyflwynir taliadau trawsffiniol oni bai ein bod ni'n rhoi trefniadau ad-dalu ar waith yng Nghymru, neu hyd nes i ni wneud hynny. Mae'r Mesur yn cynnwys darpariaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol (dros Iechyd) a'r Cynulliad wneud rheoliadau ar y cyd a fyddai'n amlinellu'r ffordd y câi taliadau trawsffiniol eu rhoi ar waith.

8. Mae setliad refeniw llywodraeth leol eisoes yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y cynllun gofal rhad ac am ddim yn y cartref am gyfnod o 6 wythnos. Pe baem yn defnyddio'r pwerau yn y Mesur i ymestyn y ddarpariaeth honno, byddai gofyn ad-dalu'r awdurdodau lleol dan y trefniadau "beichiau newydd", a hynny ar gyfer yr incwm y byddent yn ei golli. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol eraill i'r Cynulliad.

9. Gan fod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol eisoes wedi rhoi gwybod i lywodraeth leol nad yw'n bwriadu rhoi'r cynigion ad-dalu ar waith ar hyn o bryd, nid yw wedi ymgynghori â llywodraeth leol Cymru ar gynnwys y Mesur. Er hyn, bydd yn ymgynghori'n llawn â llywodraeth leol ynghylch rheoliadau a fydd yn cael eu gwneud dan unrhyw ran o'r Mesur. Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael gwybod am bob cam a gymerwyd.

**Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor Pwnc**

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r ddogfen hon.

**Edwina Hart**

**Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

Swyddog Cyswllt: Mike Shanahan, yr Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol, ffôn: 3191